# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau, 5 Tachwedd 2020 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Hugh Irving, Pat Jones, Christine Marston, Peter Scott, Rhys Thomas a/ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd Hugh Evans - Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Arweiniol dros yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol.
Y Cynghorydd Brian Jones - Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd
Y Cynghorydd Tony Thomas - Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Alan James, Meirick Lloyd Davies a Graham Timms

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd – Swyddog Monitro (GW), Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Prif Reolwr - Gwasanaethau Cynnal (AL), Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Arbenigol (AP), Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd (SP), Cydlynydd Craffu (RE), a Gweinddwyr Pwyllgor (SJ a RTJ).

Roedd Rheolwr Gweithrediadau Swyddfa Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (HVE) yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen.

Roedd y Gohebydd Democratiaeth Leol hefyd yn bresennol o bell er mwyn arsylwi'r cyfarfod.
Roedd cynrychiolydd o Archwilio Cymru wedi cael gwahoddiad i fynychu hefyd.

## DALIWCH SYLW

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol oherwydd pandemig y coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynhadledd ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd. Roedd pob aelod wedi cael cyfle i fynychu fel arsylwyr a chafodd y Gohebydd Democratiaeth Leol wahoddiad i arsylwi hefyd.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Melvyn Mile.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau - Nicola Stubbins a'r Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth a oedd yn anffodus yn methu ag ymuno â'r cyfarfod oherwydd methiant trydanol.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dim.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol y Pwyllgor, yn enwedig mewn perthynas â nifer y cynrychiolwyr o'r Blaid Geidwadol ar y Pwyllgor. Esboniwyd bod swyddogion yn aros i'r Grŵp Annibynnol enwebu cynrychiolydd i wasanaethu fel trydydd aelod ar y Pwyllgor. Ar ôl derbyn yr enwebiad hwnnw, byddai gofyn i'r Blaid Geidwadol dynnu un o'i chynrychiolwyr yn ôl o'r Pwyllgor.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 10 Medi 2020.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Lloyd-Davies ei fod wedi anfon ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod a gofynnodd bod hynny'n cael ei gofnodi yn y cofnodion ac ar ei gofnod presenoldeb.

***<u>Penderfynwyd:</u> Yn amodol ar gynnwys yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 10 Medi 2020 fel cofnod cywir.***

**5 CYNNIG TWF GOGLEDD CYMRU CAM 2 – CYTUNDEB LLYWODRAETHU**

Arweinydd y Cyngor, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Rhoddodd Swyddog Monitro, Economi a Pharth Cyhoeddus, swyddog Adran 151 a'r Rheolwr Gweithrediadau o Swyddfa Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, wybodaeth gefndirol fanwl ynglŷn ag amcanion hirdymor y Fargen Twf, a ddatblygir mewn partneriaeth rhwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd), a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
Rhoddwyd manylion am y goblygiadau ariannol i bob partner, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, a'r budd hirdymor a rhagwelir yn sgil y buddsoddi arfaethedig yn economi'r sir a'r rhanbarth. Dylai aliniad clos rhwng y Strategaeth Sgiliau ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru a'r Fargen Twf gefnogi cyflawniad y rhaglenni a'r

prosiectau a amlinellir yn y Cynllun Busnes a sicrhau ffyniant economaidd yr ardal i'r dyfodol.  Er bod prosiectau wedi eu lleoli mewn amrywiol ardaloedd ar draws y rhanbarth, rhagwelwyd y byddent i gyd mwy neu lai yn dod â budd i'r rhanbarth cyfan, gyda rhai prosiectau'n dod â budd i rai ardaloedd yn fwy nag eraill. Ond, cai hyn ei gydbwyso drwy brosiectau eraill ddoi â budd i ardaloedd eraill.  Dywedwyd wrth yr aelodau, er mwyn symud y Fargen ymlaen i'r cam gweithredu, sicrhau arian i gyflawni'r prosiectau a gwireddu'r budd economaidd a ragwelir, bod angen i bob partner gytuno ac arwyddo'r Cynllun Busnes Cyffredinol a Chytundeb Llywodraethu 2 cyn diwedd 2020. Roedd dogfen Cytundeb Llywodraethu 2 yn rhoi fframwaith llywodraethu i'r cytundeb fyddai'n manylu ar strwythurau a phrosesau fyddai'n cael eu rhoi yn eu lle i ddiogelu pob partner a sicrhau trefniadau monitro a chraffu agored a thryloyw, er mwyn diogelu atebolrwydd y penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar ran ei holl asiantaethau partner.

Er bod gan aelodau'r Pwyllgor bryderon ynglŷn ag effaith posibl pandemig COVID-19, ynghyd ag ansicrwydd ynglŷn â BREXIT ac effaith unrhyw gytundebau masnach yn y dyfodol ar brosiectau a ffurfiwyd fel rhan o'r Cytundeb arfaethedig yn ogystal â ffyniant economaidd a gwydnwch yr ardal, roeddent yn cydnabod fod y Bwrdd wedi adnabod y risgiau hyn ac yn eu monitro.  Sicrhawyd yr aelodau fod y trefniadau llywodraethu a amlygwyd yn y ddogfen Cytundeb Llywodraethu 2 a'r Achos Busnes Cyffredinol yn gosod cap ar gyfraniad ariannol blynyddol pob awdurdod tuag at y Fargen Twf, gyda mesurau diogelu mewn lle a olygai, pe bai angen unrhyw arian ychwanegol, y byddai'n rhaid sicrhau proses ddemocrataidd pob awdurdod i'w gymeradwyo cyn y gellid ei ddarparu.

Arweinydd y Cyngor, Cyfarwyddwr Corfforaethol:  Bu Swyddog Monitro, Economi a Pharth Cyhoeddus, Swyddog Adran 151 a Rheolwr Gweithrediadau'r Bwrdd yn ateb cwestiynau'r aelodau mewn perthynas ag amrywiol agweddau ar waith y Bwrdd hyd yma, y Fargen Twf a'r Cynllun Busnes cysylltiedig a'r amcanion hirdymor, a'r Trefniadau Llywodraethu, gan gynnwys craffu ar y Bwrdd a'r Fargen Twf i'r dyfodol.  Trafodwyd y pwyntiau canlynol mewn mwy o fanylder:

- Cafwyd ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i fuddsoddi yn nhwf busnesau a symud ymlaen, yn lleol ac yn rhanbarthol. Drwy gydol pandemig Covid-19 roedd yr awdurdod a'r sector preifat wedi dangos hyblygrwydd a chadernid er mwyn goresgyn rhwystrau a phryderon.
- Nodwyd, gyda phrosiectau Cyfalaf y byddai perygl cyson o orwario. Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol mai penderfyniad y Bwrdd fyddai cefnogi gorwario ar brosiectau. Byddai'r gwariant mwyaf yn swm o £240 miliwn. Nododd y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Eiddo mai'r tebygrwydd mwyaf fyddai gweld gorwario mewn prosiectau adeiladu mawr megis colegau. Byddai'r prosiectau rhanbarthol yn fwy syml ac yn aros o fewn eu cyllideb. Roedd gan swyddfa'r rhaglen gyfrifoldeb i fonitro'r prosiectau. Pwysleisiwyd fod gan yr Awdurdod uchafswm cyfraniad o £90K, ac os byddai'n rhaid adolygu hynny, byddai'n rhaid ei gyflwyno nôl i'r awdurdod lleol i gytuno arno.
- Cafwyd cadarnhad fod y noddwr arweiniol yn cyfeirio at noddwr arweiniol unrhyw brosiect unigol. Roedd y corff atebol yn cael ei reoli a'i ddiffinio yn dynn iawn. Byddai Cyngor Gwynedd, y Corff Atebol, yn derbyn yr arian gan y Llywodraeth ar ran y rhanbarth ac yn gweinyddu'r arian i'r prosiectau penodol.

- Rhoddodd Rheolwr Gweithrediadau'r Bwrdd wybod i'r aelodau fod y pedwar prif brosiect yn anelu at fynd i'r afael ag anghenion band eang. Byddai un o'r prosiectau hynny'n canolbwyntio ar y problemau gwledig yn ymwneud â chyswllt band eang. Pwysleisiwyd bod angen gwirioneddol am gysylltiad band eang da. Atgoffwyd yr aelodau o'r strategaeth ddigidol ranbarthol oedd yn cynnwys mecanwaith ariannu amgen.
- Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Nododd Economi a Pharth Cyhoeddus y gallai un risg posibl fod ynghlwm â'r cyfraniad ariannol. Efallai na fydd rhai o'r prosiectau ar gyfer Sir Ddinbych yn cael eu cyflawni fel y bwriadwyd a hynny oherwydd amgylchiadau neu sefyllfaoedd nas rhagwelwyd ond fel awdurdod, byddai'n ddyletswydd ar y Cyngor i gyfrannu'n ariannol. Yn gyffredinol, pwysleisiwyd y byddai gwelliannau rhanbarthol yn treiddio i lawr i bob economi leol. Rhoddwyd cadarnhad fod trefniadau llywodraethu cadarn mewn lle er mwyn lleihau risg. Amlygodd Rheolwr Gweithrediadau'r Bwrdd beth yw effaith Covid-19 ar y sector preifat. Byddai sicrhau lefel buddsoddiad gan y sector preifat, er mwyn gweld effaith a budd mwyaf posibl y fargen twf i'r rhanbarth, yn cael ei weld fel risg posibl. Pwysleisiwyd fod swyddogion yn teimlo fod budd y cynnig Twf yn gorbwyso'r risgiau.
- Roedd y safleoedd a nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer safleoedd yn ymwneud â thai a allai ddenu arian drwy'r rhaglen tir ac eiddo, yn bennaf yn safleoedd oedd eisoes wedi eu dynodi ar gyfer datblygiad o fewn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Cadarnhawyd fod gan safleoedd elfennau o ganiatâd cynllunio neu geisiadau wedi eu cychwyn. Roedd y pecyn ariannu ar gyfer tai yno i helpu i ddatblygu safleoedd y cytunwyd arnynt eisoes ar gyfer datblygu. Gobeithiwyd y byddai'r prosiectau yn annog pobl i fyw a gweithio o fewn yr awdurdod a dod â budd i'r economi.
- Roedd yr adroddiad yn cynnwys y waelodlin isaf ar gyfer buddsoddiad. Roedd y gwaith i ennill buddsoddiad pellach gan y sector preifat yn parhau.
- Byddai'r cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn cymeradwyaeth y cynllun busnes cyffredinol, sy'n nodi'r strategaeth ynglŷn â sut byddai'r cynllun twf yn cael ei weithredu. Byddai achosion busnes y prosiectau unigol o fewn y rhaglenni yn cael eu cymeradwyo gan Gyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Pe bai angen newid y cynllun busnes cyffredinol, byddai'n rhaid ei gyflwyno a chael cytundeb arno gan bob un o'r Awdurdodau Lleol a'r partneriaid.

  Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd fod dwy ddarpariaeth mewn lle i bartneriaid dynnu allan o'r cytundeb. Yn gyntaf byddai'n rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o 12 mis cyn tynnu allan a hynny'n dilyn y cyfnod ymrwymo o 6 mlynedd. Y dull arall fyddai hysbysiad terfynu. Gwneid hyn yn dilyn rhybudd diffygion yn nodi dulliau o ddiwygio unrhyw wahaniaethau yn y rhwymedigaethau nad oeddent wedi eu cyflawni. Byddai unrhyw bartner fyddai'n gadael y cytundeb yn cael adroddiad atebolrwydd ac yn gyfrifol am y costau y maen nhw eisoes wedi ymrwymo iddynt, yn ogystal â chostau a ddoi o ganlyniad i'r tynnu nôl neu'r terfynu.

Ar ôl ystyried y ddogfennaeth a'r wybodaeth a gafwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon ac wedi ei sicrhau y byddai Cytundeb Llywodraethu 2 yn rhoi fframwaith cadarn ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd, rheoli risg, monitro perfformiad ac ansawdd, a threfniadau craffu, gan gefnogi cyflawni amcanion y Cytundeb ar gyfer Sir Ddinbych

a'r rhanbarth. Roedd yr aelodau o'r farn fod y Fargen Twf yn rhoi cyfle gwych i'r rhanbarth wireddu ei botensial economaidd, ond yn pwysleisio'r angen, unwaith y byddai Cytundeb y Fargen Twf wedi ei gymeradwyo a'i sicrhau, y dylai'r Bwrdd gysylltu ei waith â gwaith rhaglenni eraill uchel eu proffil, megis Pwerdy Gogledd Lloegr, er mwyn ceisio cael y budd mwyaf i'r rhanbarth o'r prosiectau a'r buddsoddiad a wnaed.

Yn dilyn trafodaeth fanwl a thrylwyr gan y Pwyllgor:

***<u>Penderfynwyd:</u> - yn amodol ar y sylwadau uchod -***

***Ar ôl ystyried yr wybodaeth a roddwyd yn ystod y drafodaeth a'r dogfennau yn ymwneud â'r Fargen Twf Terfynol a atodwyd fel Atodiad 1 i'r adroddiad, y dylid cefnogi ac argymell y cynigion yn y dogfennau i'w cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn eu hardystio a'u cymeradwyo'n ffurfiol; a***

***bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried cynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar Les Cyngor Sir Ddinbych sydd ynghlwm fel Atodiad 2 i'r adroddiad fel rhan o'i ystyriaethau.***

**Ar y pwynt hwn (11.30 am) cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.45 a.m.**

## 6 DIGARTREFEDD - EFFEITHIAU COVID 19 A CHYNLLUNIAU ADFERIAD, STRATEGAETH DDIGARTREFEDD A CHYFRIFIAD Y RHAI SY'N CYSGU AR Y STRYD

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol yr adroddiad ac atodiadau (dosbarthwyd yn flaenorol) i aelodau. Roedd Pennaeth y Gwasanaeth eisiau tynnu sylw at y pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth yn sgil y newidiadau mewn rheoliadau gan Lywodraeth Cymru yn dilyn Covid-19. Fe nodwyd bod nifer yr aelwydydd digartref wedi dyblu bron yn sgil y newid i reoliadau Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd cadarnhad i'r aelodau bod cyllid cyfalaf wedi cael ei sicrhau er mwyn lleihau'r defnydd o lety gwely a brecwast ar gyfer teuluoedd. Fe nodwyd hefyd bod cyllid refeniw wedi cael ei ddyrannu i gefnogi datblygu'r model newydd o gefnogaeth sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.
Yn sgil y newidiadau mewn rheoliadau, mae angen diwygiad i'r strategaeth digartrefedd. Mae'r newidiadau wedi cael eu cynnwys yn atodiadau'r adroddiad.
Dywedodd y Prif Reolwr - Gwasanaethau Cynnal wrth yr aelodau y gofynnwyd iddynt gyflwyno cynllun adfer (a amlinellwyd yn atodiad yr adroddiad).
Clywodd yr aelodau mai cam 2 canllaw Llywodraeth Cymru oedd wedi bod yn gyrru adferiad y gwasanaeth. Nod cyffredinol yr wybodaeth canllaw oedd dod â diwedd i ddigartrefedd a chyflwyno model ailgartrefu cyflym. Rhoddwyd pwyslais ar ddull corfforaethol gyda nifer o wasanaethau yn cydweithio.
Pwysleisiodd y Prif Reolwr - Gwasanaethau Cynnal bod y gwaith oedd wedi cael ei wneud yn unol â'r canllaw ar bobl oedd yn cysgu ar y stryd, gyda'r nod na fyddai unrhyw unigolyn yn cysgu ar y stryd. Cadarnhawyd na fyddai cyfrifiad cysgu ar y stryd yn cael ei gynnal eleni.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad a'r atodiadau. Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Dim ond rhent ar gyfradd rhent tai lleol roedd y Cynllun Prydlesu Rhentu Preifat yn ei warantu, fe allai hynny fod yn llai na'r rhent masnachol allai fod ar gael. Roedd y niferoedd yn derbyn y cynllun 5 mlynedd yn isel, roedd gwaith yn parhau gyda landlordiaid er mwyn ymgysylltu â swyddogion ac ymuno â'r cynllun. Mae'r galw am lety rhent yn uchel.
- Roedd y Peilot ar gyfer Cynllun Prydlesu Rhentu Preifat fod i fynd yn fyw ym mis Chwefror 2020, ond yn sgil Covid-19, cafodd y dyddiad lansio ei ohirio tan fis Gorffennaf 2020.
- Mae'r gwaith o gydweithio'n agos gyda Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor ar ailddefnyddio eiddo gwag wedi parhau, gan weithio gyda landlordiaid i ddatblygu eiddo i greu eiddo sy'n cyrraedd safon i alluogi pobl i fyw ynddynt. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus ei bod yn cymryd amser i ailwampio eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir i safon er mwyn i deulu allu byw yn yr eiddo.
- Roedd cefnogaeth yn parhau i gael ei darparu i unigolyn cyn iddynt ddod yn ddigartref. Roedd cefnogaeth ar gael ar bob lefel. Sefydlwyd cynllun gan Lywodraeth Cymru o'r enw Tai yn Gyntaf ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn helpu a chynorthwyo unigolion sy'n cysgu ar y stryd.
- Yn aml, defnyddio llety gwely a brecwast yw'r unig ddatrysiad sydd ar gael ar gyfer teuluoedd ac unigolion sydd yn ddigartref. Yn aml, caiff ei ddefnyddio fel darpariaeth argyfwng. Fe fydd y Cyngor yn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i brynu eiddo y gellir ei ddefnyddio i ddarparu cefnogaeth, i atal teuluoedd a phlant bach rhag symud i leoliadau gwely a brecwast. Roedd y broses o chwilio am eiddo wedi dechrau, ond pwysleisiwyd eu bod yng nghamau cynnar y broses. Byddai angen cael gafael ar eiddo mwy i leoli unigolion sengl, roedd y cyfan yn y camau cynnar ar hyn o bryd.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad ac roeddynt eisiau diolch i'r tîm am yr holl waith caled yn ystod pandemig Covid-19. Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u> - Yn amodol ar y sylwadau uchod, cadarnhaodd aelodau eu bod wedi cael sicrwydd bod Tîm Atal Digartrefedd Sir Ddinbych yn gweithio at gynllun cam tri Llywodraeth Cymru 'Canllawiau Cynllunio i Wasanaethau Digartrefedd a Chymorth sy'n Gysylltiedig â Thai' gan fynd i'r afael â materion digartrefedd yn y sir a'i ymateb i bwysau a achoswyd gan bandemig Covid-19.***

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION YN SIR DDINBYCH EBRILL 2019 – MAWRTH 2020**

Fe arweiniodd Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yr aelodau drwy'r adroddiad blynyddol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar gyfer 2019/20. Roedd elfennau o 2020/21 wedi cael eu cynnwys er mwyn adlewyrchu effaith Covid-19 ar y lefel o atgyfeiriadau diogelu.
Yn yr adroddiad, fe dynnwyd sylw at y sylwadau cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru mewn cysylltiad â diogelu. Roedd hyn yn adlewyrchiad o'r gwaith caled roedd y gwasanaeth wedi'i ddarparu gan roi hwb i ysbryd y tîm.

Parhaodd y duedd mewn atgyfeiriadau i ddangos cynnydd, er y gwelwyd gostyngiad bychan yn 2020. Pwysleisiwyd y dylid ystyried y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau yn fesur cadarnhaol gan ei fod yn dangos bod pobl wedi adrodd pryderon oedd ganddynt. Rhoddwyd cadarnhad bod nifer yr atgyfeiriadau a gafodd eu symud ymlaen i gyfarfodydd strategaeth ar gyfer pryderon megis camdriniaeth wedi lleihau. Roedd hyn yn dangos bod ymyrraeth gynnar wedi gweithio'n dda ac wedi atal yr angen am ragor o waith.

Cafwyd cadarnhad mai mewn cartrefi gofal y byddai'r ffigurau uchaf o ddigwyddiadau. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol bod yr unigolion mwyaf diamddiffyn fel arfer yn byw mewn cartrefi gofal. Pwysleisiwyd bod y ffigurau'n ymwneud ag atgyfeiriadau, fe ellir gwneud mwy nag un atgyfeiriad mewn cysylltiad ag unigolyn. Gwnaed sylw bod y nifer o bobl o bobl yr honnir sy'n gyfrifol am gamdriniaeth o gyflogaeth am dâl yn uchel. Fe eglurwyd bod y nifer yn uchel am fod gweithwyr a chyflogwyr yn adrodd pob digwyddiad yn unol â'r rheoliadau a pholisïau. Rhoddwyd cadarnhad fod pob atgyfeiriad yn cael ei ymchwilio, ond nid oedd pob un yn cael eu huwchgyfeirio i lefel uwch ar ôl yr ymchwiliad. Cafodd y categorïau o gamdriniaeth honedig, lleoliad y gamdriniaeth honedig a'r cyflawnwyr honedig eu dynodi gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd cadarnhad y gallai'r categori 'eraill' fod yn gysylltiedig ag unigolion megis cymdogion neu unigolyn anhysbys. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Arbenigol bod y nifer o atgyfeiriadau a dderbyniwyd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol, ond rhoddodd sicrwydd i aelodau bod gweithwyr yn parhau i fod yn ystyrlon o ddiogelu'r bobl ddiamddiffyn yn y gymuned a'u bod wedi derbyn llawer o alwadau ffôn ers cyfnod clo Covid-19 yn ceisio cyngor ac arweiniad mewn perthynas â diogelu.

Diolchodd yr aelodau i swyddogion am yr astudiaeth achos oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, gan ddweud ei fod yn ddefnyddiol iawn ac yn llawn gwybodaeth.

Felly;

***Penderfynwyd:*** ***-:***

***(i) cydnabod ymdrechion y Cyngor i ddiogelu oedolion diamddiffyn yn y sir; a***

***(ii) phwysigrwydd ymagwedd gorfforaethol at ddiogelu oedolion mewn perygl a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol.***

## 8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd eisoes) yn gofyn i aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.
Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol –

- Cytunodd aelodau i gynnwys adroddiad ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn y cyfarfod nesaf ar 17 Rhagfyr 2020.

- Cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu fod y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion yn cyfarfod yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw i drafod cynigion.

- Roedd yr aelodau'n dymuno diolch i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol am yr adroddiadau clir a dealladwy.

Atgoffodd y Cydlynydd Craffu aelodau am y ffurflen cynnig craffu (Atodiad 2 a ddosbarthwyd eisoes) a dywedodd y dylid anfon unrhyw gynigion yn uniongyrchol ati hi fel eu bod yn cael eu hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu er mwyn eu cynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Gofynnodd aelodau a fyddai modd amlygu cefnogaeth y Pwyllgor i Fargen Dwf Gogledd Cymru ar gyfryngau cymdeithasol. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trafod unrhyw bwyntiau pellach gyda'r Cydlynydd Craffu ar ôl y cyfarfod. Felly;

***<u>Penderfynwyd</u>: - yn amodol ar yr arsylwadau uchod ac ymholiadau a wneir gyda swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am eu hargaeledd i fynychu cyfarfod i drafod yr eitemau a restrir o dan yr adran 'Materion y Dyfodol', cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.***

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dywedodd y Cynghorydd Christine Marston ei bod wedi mynychu cyfarfod Grŵp Cyfeirio Budd-Ddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) o bell ar ddiwedd mis Hydref. Hysbysodd y Cynghorydd Marston yr aelodau bod trafodaeth y grŵp wedi canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- Cynllunio ar gyfer y gaeaf
- Cofnodion clinigol digidol
- Achos busnes i ddatblygu cyn safle Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl i fod yn Ysbyty Cymuned newydd i Ogledd Sir Ddinbych

Roedd pryderon wedi codi am achos busnes yr Ysbyty gan nad oedd unrhyw gais cynllunio wedi'i gytuno na'i ganiatáu gan Adran Gynllunio Cyngor Sir Ddinbych hyd yma. Hysbysodd y Cynghorydd Marston aelodau'r grŵp cyfeirio budd-ddeiliaid y byddai hi'n ymgynghori â'r Adran Gynllunio a'r Aelod Arweiniol am ddiweddariad. Cadarnhawyd bod Adran Gynllunio Sir Ddinbych a BIPBC wedi parhau i gydweithio'n agos a chyfathrebu.

Cyfeiriodd y Cydlynydd Craffu yr aelodau at adroddiad y rhaglen gwaith i'r dyfodol (a ddosbarthwyd eisoes) a oedd yn cynnwys adroddiad i'r dyfodol am 'Gynlluniau Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau yn Sir Ddinbych'. Pwysleisiwyd y gallai fod yn anodd gofyn i gynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr fynychu cyfarfod ar hyn o bryd oherwydd pandemig Covid-19. Cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu y byddai'n holi a fyddai unrhyw un ar gael i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ym mis Rhagfyr.

***<u>Penderfynwyd:</u> - derbyn a nodi'r wybodaeth a dderbyniwyd, a chodi'r materion yn ymwneud â chynnydd hyd yma o ran darparu prosiect Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych gyda chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd y tro nesaf y byddent yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor.***

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm**